

PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

Dyddiad:	Dydd Mercher, 25 Hydref 2000
Amser:	2.00pm
Lleoliad:	Ystafell Pwyllgor 2, Cynulliad Cenedlaethol

IAITH MEWN CYFLE CYFARTAL

Mae'r papur hwn yn rhan o gyflwyniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg i Bwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 25 Hydref 2000.

Pwrpas y papur

1. Cyflwynir y papur hwn i Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad er mwyn:
 - i. atgoffa'r Cynulliad, a'r Pwyllgor, o'r angen i gynnwys y dimensiwn ieithyddol i gyfle cyfartal yn ei waith ochr-yn-ochr â hil, rhyw, oedran a dimensiynau cydraddoldeb eraill; a
 - ii. i gynghori'r Cynulliad a'r Pwyllgor ynglŷn â'r camau y gellid eu cymryd er mwyn gweithredu hyn, gan y Cynulliad ei hunan a gan eraill.

Nid yw'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ddatganiedig y Cynulliad o warchod ffyniant yr iaith Gymraeg i'r dyfodol, ond yn hytrach â'i swyddogaeth o warchod hawliau a chyfle cyfartal i'w defnyddwyr.

Cyd-destun

2. Mae seicolegwyr a dadansoddwyr cymdeithasol dros y Byd yn cydnabod yn eang ac yn broffesiynol, fod iaith yn ein bywydau yn golygu llawer mwy na chyfathrebu yn unig. Mae iaith yn rhan greiddiol o'r hyn sy'n rhoi *psyche* neu hunaniaeth i ni, fel unigolion ac fel cymdeithas. Felly, pan roddir statws isel i iaith, rhoddir statws isel i'w siaradwyr, ac mae hanes yn llawn o bobloedd yn dangos eu goruchafiaeth drwy wrthod hawliau a chyfleoedd ieithyddol i eraill. O'i roi'n syml, mae cydraddoldeb ieithyddol wrth wraidd bod yn gyfartal.

3. Mae hyn yn sicr wedi bod yn wir yng Nghymru dros y canrifoedd. Efallai mai gwrthod hawliau ieithyddol yn y Llys a'r 'Welsh Not' yw'r enghreifftiau mwyaf cyfarwydd o wahaniaethu. Fodd bynnag, bu gwrthod gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg dros y blynyddoedd, o ran ei effaith, yn fath o wahaniaethu sefydliadol eang yn erbyn siaradwyr Cymraeg. Dim ond yn awr yr ydym yn graddol ddileu hynny.

4. Drwy Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'r Wladwriaeth wedi cydnabod diffyg cydraddoldeb y gorffennol ac yn cymryd camau eglur ac ymarferol i'w ddileu. Mae'r Ddeddf yn perthyn i'r teulu cynyddol o ddeddfwriaeth cyfle cyfartal ym Mhrydain, a heb amheuaeth yn rhan o'r agenda cyfle cyfartal. Mae'n rhoi cyfrifoldeb ar lywodraeth a chyrff cyhoeddus (drwy gynlluniau iaith Gymraeg) i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg ar sail gyfartal â'r Saesneg. Mae mecanwaith cydraddoldeb y Ddeddf felly wedi ei gerio i rwystro gwahaniaethu drwy hyrwyddo cydraddoldeb ymarferol. Fodd bynnag, mae llawer iawn o waith i'w wneud o hyd cyn y ceir cydraddoldeb gwirioneddol.

5. Mae hyn hefyd heb os yn rhan o agenda cyfle cyfartal Ewropeaidd a rhyngwladol. Er enghraifft, yn ei hadroddiad ar ran y Llywodraeth yn 1998 ar gydymffurfio â chyfraith cyfle cyfartal y Gymuned Ewropeaidd¹, cyfeiriodd y Swyddfa Gartref sawl gwaith at y cynnydd a wnaed yn enw Deddf yr Iaith Gymraeg, yn ogystal â Deddf Cydraddoldeb Hiliol a deddfwriaeth arall. Mae Deddf Hawliau Dynol yn gweithredu ymhellach yr hawliau a'r rhyddid a geir yng Nghonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol. Mae Erthygl 14 o'r Confensiwn wedi ei gynnwys, ac mae'n enwi 'iaith' ochr yn ochr â'r dimensiynau cydraddoldeb eraill.

6. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi arwyddo Siarter Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol erbyn hyn. Y cyswllt rhwng hawliau ieithyddol a chyfle cyfartal yw'r sylfaen y mae'r gwahanol Erthyglau wedi eu hadeiladu arni a'u hasio gyda'i gilydd i wneud y Siarter hon. Er enghraifft, cafodd y Siarter ei llofnodi gan Wladwriaethau'r Gymuned –

"considering that the right to use a regional or minority language in private and public life, is an inalienable right conforming to the principles embodied in the United Nations International Covenant on civil and political rights, and according to the spirit of the Council of Europe Convention for the protection of human rights and fundamental freedoms",

ac mae'n cynnwys fel un o'i Amcanion ac Egwyddorion

"the parties undertake to eliminate, if they have not yet done so, any unjustified distinction, exclusion, restriction, or preference relating to the use of a regional or minority language and intended to discourage or endanger the maintenance or development of a regional or minority language. The adoption of special measures in favour of regional or

minority languages aimed at promoting equality between the users of these languages and the rest of the population or which take due account of their specific conditions is not considered to be an act of discrimination against the users of more widely used languages."

Bydd gan y Cynulliad ran arweiniol i'w chwarae yn arolygu cydymffurfiaeth â'r Siarter hon.

7. Fel y gellir gweld felly, mae cydraddoldeb ieithyddol yn rhan annatod o warchod a hyrwyddo hawliau dynol a chyfle cyfartal. O safbwynt siaradwyr unrhyw iaith ac o safbwynt cyfraith ryngwladol fel ei gilydd, fel y dywedsom, mae cydraddoldeb ieithyddol wrth wraidd bod yn gyfartal.

Anghydraddoldeb mewn gwirionedd

8. Ond mae barn y Bwrdd yn seiliedig ar fwy na chwestiwn egwyddor a chyfraith yn unig. Yn bwysicach efallai, mae'n codi o'n gwybodaeth bod diffyg parch at anghenion ieithyddol yn parhau i greu anfantais i siaradwyr Cymraeg wrth geisio mynediad at wasanaethau, wrth warchod eu buddiannau, ac wrth dderbyn cyngor neu ofal sy'n addas i'w anghenion. Weithiau, mae'r broblem yn codi o ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, ond ar droeon eraill mae'n codi o ymarferion gwahaniaethol.

9. Yn fwyaf cyffredin, mae'n ganlyniad uniongyrchol o sefydliadau yn anwybyddu anghenion ieithyddol wrth iddynt gynllunio a darparu eu gwasanaethau, ac wrth hyfforddi eu staff. Nid yw eu polisiâu cyfle cyfartal yn cyfeirio at iaith, ac nid yw'n cael unrhyw driniaeth ystyrlon o fewn rheolaeth a diwylliant y corff, na'i weledigaeth o wasanaeth. Gallai'r Bwrdd ddarparu rhestr o enghreifftiau nodweddiadol i'r Pwyllgor, pe byddai'n dymuno. Byddent yn cynnwys materion fel siaradwyr Cymraeg yn cael eu rhwystro rhag siarad Cymraeg yn y gweithle, barn feddygol a chyngor meddygol anghywir, a siaradwyr Cymraeg oedrannus yn methu ag esbonio eu hanghenion mewn amgylchiadau dirdynnol a diraddiol.

Camau i'r Cynulliad Cenedlaethol eu cymryd

10. Y cefndir hwn sydd y tu ôl i farn y Bwrdd fod gwarchodaeth y Cynulliad Cenedlaethol dros gyfle cyfartal yn gorfod cynnwys y dimensiwn ieithyddol ochr-yn-ochr â hil, rhyw, anabledd, oedran a dimensiynau cydraddoldeb eraill.

11. Gellid gweithredu hyn mewn llawer dull, gan gynnwys y canlynol:

(i) drwy gynnwys y dimensiwn ieithyddol yn ffurfiol fel rhan o agenda cyfle cyfartal y Cynulliad;

- ii. drwy fabwysiadu arfer sefydlog bod 'iaith' yn cael ei restru a'i drafod gyda hil, rhyw, anabledd, oedran a dimensiynau cydraddoldeb eraill mewn papurau polisi, cylchlythyrau, canllawiau, gweithdrefnau cyllido, a deunydd eraill o eiddo'r Cynulliad;
- iii. drwy greu disgwyliad bod polisiau cyfle cyfartal gan sefydliadau yn delio ag 'iaith' gyda'r dimensiynau cydraddoldeb eraill, a bod ffurflenni arolygu cyfle cyfartal yn cynnwys cwestiynau safonol ynglŷn ag ieithoedd;
- iv. drwy gynnwys 'iaith' mewn unrhyw raglenni neu brosesau sy'n archwilio neu hyrwyddo neu warchod cyfleoedd cyfartal, boed y rheiny'n cael eu rhedeg gan y Cynulliad, neu gan eraill gyda nawdd y Cynulliad;
- v. drwy gynnwys cydraddoldeb ieithyddol mewn unrhyw waith ymchwil ar gydraddoldeb yng Nghymru, neu drwy wneud gwaith ymchwil penodol ynglŷn â hyn;
- vi. drwy ei gwneud yn ofynnol i Arolygiaethau, Comisiynau, Timau Adolygu Gwasanaeth ac asiantaethau eraill sy'n mesur ansawdd a chydymffurfiaeth, i ymchwilio i agweddau ieithyddol gyda'r themâu cydraddoldeb eraill, fel rhan o'u gwaith arolygu a gwerthuso;
- vii. drwy geisio cytundeb y Swyddfa Gartref ac Adrannau eraill o'r Llywodraeth i fabwysiadu (i) i (v) uchod mewn perthynas a'u swyddogaethau yng Nghymru;
- viii. drwy roi cydraddoldeb ieithyddol yn rheolaidd ar agenda Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad, a –
 - a. gwahodd Aelodau Cabined y Cynulliad a'u Cyfarwyddiaethau Polisi i adrodd ar gynnydd;
 - b. gwahodd y cyrff a noddir gan y Cynulliad, ac eraill, i wneud yr un peth.

12. Drwy gymryd y camau hyn credwn y bydd y Cynulliad yn gwneud cyfraniad pwysig ac arweiniol, fydd nid yn unig yn dylanwadu ar arferion cydraddoldeb ond hefyd yn cynorthwyo'r Cynulliad o ran ei gyfrifoldeb i gydymffurfio â'r Siarter ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol ac adrodd ar y cynnydd yn ei gweithrediad. Ar ben hynny, bydd yn cyfrannu mewn ffordd ymarferol tuag at weithredu'r themâu arweiniol yn www.gwellcymru.com.

13. Dylai'r Pwyllgor nodi, tra bod gan y Bwrdd gyfrifoldeb statudol i weithredu er lles yr iaith Gymraeg, ac mae'r papur hwn yn codi o'r cyfrifoldeb hwnnw, nid ydym yn cyfyngu ein syniadau fan hyn i'r Gymraeg yn unig. Gall Cymru wneud mwy i ddarparu gwybodaeth yn ieithoedd ei grwpiau ethnig, a gellid cymhwyso'r camau a amlinellir uchod i'w cynorthwyo nhwythau. Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda'r asiantaethau cyfle cyfartal eraill, ac amgaewn gopi o'n Cytgordd gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, sy'n dal ysbryd y modd yr ydym rhyngom yn gweithio tuag at gyfle cyfartal.

14. Mae'r Bwrdd gyda dyledus barch yn gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol dderbyn y papur hwn a mabwysiadu'r argymhellion sydd ynddo.

¹ "UK Report on the Council of Europe Framework Convention for the protection of National

Minorities" Uned Cydraddoldeb Hiliol y Swyddfa Gartref

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

18 Hydref 2000